Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Talsarnau
# Talsarnau
# Gwynedd
# LL47 6TA

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Talsarnau

Lleolir yr ysgol ym mhentref Talsarnau sydd ychydig filltiroedd o Harlech yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae 45 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 5 oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth oed cymysg.

Tros dreigl tair blynedd, mae ychydig dros 7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r ganran genedlaethol, sy'n 18%. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi adnabod ychydig dros 12% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2014 ac mae o dan ofalaeth y pennaeth strategol presennol ers 2016, sydd hefyd yn bennaeth ysgol arall gyfagos.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo Cymreictod a datblygiad personol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol iawn â'u cyfoedion gan ddangos parch a chwrteisi tuag atynt. Maent yn ddysgwyr hyderus a galluog sy'n ymddwyn yn ardderchog y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae agweddau'r disgyblion tuag at eu dysgu yn rhagorol ac maent yn dangos balchder mawr yn eu hysgol. Maent yn datblygu'n effeithiol iawn fel dysgwyr sy'n barod i ddyfalbarhau a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain. O ganlyniad, mae rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn a chyson, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir o ystyried eu hoed.

Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn darparu arweinyddiaeth flaengar a chadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol, a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddynt ymrwymiad cryf i ddatblygu staff a sicrhau bod yr ysgol yn datblygu'n sefydliad dysgu dylanwadol iawn. Mae staff yn arwain cymunedau dysgu yn effeithiol o fewn yr ysgol a thu hwnt. Maent yn frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn cydweithio'n dda iawn i sicrhau bod yr ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad arbennig i bob disgybl.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion y cyfnod sylfaen

A2 Sicrhau bod athrawon yn rhoi cyfleoedd cyson i'r holl ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu'n sefydliad dysgu effeithiol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar waelod y cyfnod sylfaen, mae medrau llythrennedd a rhifedd llawer o ddisgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau.

Mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn gryf. Maent yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n frwdfrydig am eu gwaith gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol a phatrymau brawddegau yn gywir. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth drafod eu gwaith, gan fynegi eu syniadau'n glir a chyda cywirdeb. Mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn y Gymraeg yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn darllen yn rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Er enghraifft, maent yn egluro'n glir iawn y camau sydd angen iddynt eu cymryd i wneud cawl pwmpen ac yn trafod eu hoff gymeriadau mewn stori yn fyrlymus. Mae llawer yn defnyddio eu medrau ffoneg yn llwyddiannus wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir yn y ddwy iaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth sy'n addas i'w hoed a'u gallu, ac maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a'r cymeriadau yn eu llyfrau cyfredol yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio uwch fedrau darllen a medrau trawsieithu yn llwyddiannus, er enghraifft i gywain gwybodaeth am ofodwyr enwog ac i'w galluogi i ysgrifennu portreadau cywir o chwaraewyr tîm rygbi Cymru.

Ar draws yr ysgol, mae cynnydd disgyblion yn eu medrau ysgrifennu yn amrywio. Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif yn ysgrifennu'n briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o wahanol ddibenion ysgrifennu. Fodd bynnag, nid ydynt yn ysgrifennu'n ddigon helaeth ar draws amryw o genres. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n greadigol at amrywiaeth o ddibenion. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Ar y cyfan, mae safonau sillafu rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o rif, siâp, mesur a thrin data. Mae'r rhan fwyaf yn y dosbarth meithrin a derbyn yn adnabod rhifau yn dda ac yn eu gosod yn y drefn gywir yn hyderus. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn mesur amlinelliad cyrff i'r centimetr agosaf, gyda disgyblion mwy abl yn defnyddio centimetrau a metrau yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn datblygu dealltwriaeth werthfawr o ffeithiau rhif ac yn defnyddio medrau mesur yn gywir. Er enghraifft, yn eu gwersi gwyddoniaeth, maent yn mesur uchder a chymharu stôr carbon gwahanol goed ar dir yr ysgol. Ym Mlwyddyn 5 a 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau rhif yn dda iawn er mwyn datrys problemau sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft wrth gyfrifo cost taith i Landudno.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws wahanol feysydd y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio llechi electronig yn effeithiol. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio cronfeydd data syml i gofnodi eu hoff ganeuon Cymreig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn arddangos medrau TGCh hyderus, gan gymhwyso'u medrau'n dda a dethol y dulliau mwyaf addas i gyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn creu cronfa ddata cynhwysfawr ar nodweddion planedau. Yn ogystal, maent yn cwestiynu a threfnu'r wybodaeth yn hyderus i ddarganfod ffeithiau penodol i gadarnhau eu dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfrineiriau'n ddiogel a phwrpasol i fewngofnodi i wefannau dysgu i gyflawni eu gwaith yn y dosbarth ac adref.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safon lles ac agwedd bron pob un disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Mae bron pob un yn dangos balchder dros eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn y naws gynhwysol a theuluol sy'n bodoli ynddi. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'n ddiogel ar-lein.

Mae ymddygiad bron pob un yn gyson ardderchog. Maent yn gwrtais iawn ac yn dangos parch aeddfed tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un yn ofalgar o'i gilydd ac yn cydweithio a chyd-chwarae yn llwyddiannus iawn. Cefnogir yr ethos o deulu a chydymdeimlad at eraill yn effeithiol iawn gan y 'Criw Cŵl'. Maent yn wyliadwrus dros ben ar fuarth yr ysgol ac yn mynd yn syth i gynnig cymorth i'r rheini sy'n ymddangos yn drist. Maent bob amser yn rhagweithiol iawn i ddechrau sgwrs yn y Gymraeg.

Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn iawn o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys ac yfed dŵr yn rheolaidd. Mae disgyblion yn gwybod sut i gadw'n heini ac maent yn annog eraill i wneud hynny yn barhaus. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon chwaraeon yn arwain sesiynau llythrennedd corfforol yn hyderus ac yn rhoi adborth i staff a disgyblion ar sut y gallant drosglwyddo'r medrau hyn i amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig, ac maent yn barod iawn i drafod eu gwaith yn aeddfed iawn gyda'u cyfoedion. Maent yn dangos parch gwirioneddol tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Mae'r cydweithio hynod lwyddiannus hwn yn nodwedd gref ac yn weladwy yn gyson.

Mae llais y disgybl wedi treiddio'n llwyddiannus iawn i agweddau o fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dewis themâu a chreu mapiau meddwl ar gyfer unedau o waith yn hyderus. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda iawn trwy astudio thema Rygbi Cymru. Mae'r rhan fwyaf yn falch iawn o'u Cymreictod ac yn dangos parodrwydd a brwdfrydedd tuag at ddysgu am ddiwylliant Cymru.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn aml yn arddangos eu gallu i ddysgu'n annibynnol. Maent yn datblygu eu medrau meddwl a'u gallu i ddyfalbarhau yn dda iawn, er enghraifft trwy ddefnyddio strategaethau'r cylch cymorth. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth hynod gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith a llwyddo mewn tasgau penodol. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth aeddfed o'u cyrhaeddiad a'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r disgyblion yn manteisio'n llwyr ar y cyfleoedd da iawn mae'r ysgol yn darparu iddynt gymryd cyfrifoldebau. Maent yn ymgymryd â'u gwaith yn gydwybodol a hyderus, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn iawn o'u rolau o fewn yr ysgol. Mae aelodau'r cynghorau ysgol ac eco, a'r llysgenhadon digidol a chwaraeon yn cyfrannu'n fuddiol iawn at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor wedi trefnu diwrnod gwisg anffurfiol i godi arian i brynu amrywiaeth o offer technolegol newydd ac mae'r cyngor eco wedi lleisio'u barn yn glir er mwyn gwella safle'r ysgol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda iawn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol a'r gymuned. Mae'r disgyblion yn egluro pwysigrwydd gwerthoedd moesol fel caredigrwydd a chydweithrediad mewn modd aeddfed a deallus. Mae hyn yn eu paratoi'n dda iawn at dyfu'n ddinasyddion cydwybodol a gweithgar y dyfodol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae perthynas waith hynod ofalgar a chefnogol yn bodoli ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus, yn cefnogi'r dysgu'n dda iawn, ac yn cynnig ymyraethau pwrpasol i ddisgyblion yn ôl yr angen. Maent yn pwysleisio egwyddorion effeithiol, sy'n meithrin cwrteisi, parch a naws dysgu hwylus iawn. Mae gan yr athrawon drefniadau effeithiol iawn i reoli ymddygiad bron pob un disgybl. O ganlyniad, mae perthynas weithgar iawn yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion ar draws yr ysgol, sy'n galluogi disgyblion i ddysgu'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac eang i'r disgyblion, sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf ohonynt ac yn sicrhau bod y cwricwlwm yn cydymffurfio â gofynion statudol. Mae ehangder y profiadau a ddarperir ar draws y cwricwlwm yn rhoi cyfleoedd cynyddol a phwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn gyson. Trwy bennu themâu diddorol, mae'r athrawon yn hybu'r dysgu ac yn atgyfnerthu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn ystyried syniadau disgyblion yn rheolaidd yn y broses, ac yn cynllunio gwersi difyr a phwrpasol yn drylwyr, gan deilwra'r gweithgareddau er mwyn bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt.

Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac maent yn darparu gweithgareddau amrywiol i'r disgyblion, fel dewis a dethol adnoddau plastig er mwyn atgyfnerthu pwysigrwydd ailgylchu. O ganlyniad, maent yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddysgu i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus a pharchus sy'n ystyried goblygiadau eu harferion ar yr amgylchedd. Defnyddir yr ardal allanol yn effeithiol ac yn greadigol er mwyn i'r disgyblion ddewis defnyddiau gwahanol i efelychu gwaith artist o Gymru, er enghraifft. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion mwyaf abl y cyfnod sylfaen ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn ddigon estynedig ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd eang i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol.  Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gasglu, dadansoddi a chyflwyno data wrth gynllunio taith i Landudno. Maent yn ymestyn cyfleoedd buddiol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymryd mwy o gyfrifoldeb am ddewis lefel yr her yn eu tasgau.  O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr mentrus a hyderus.

Mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn briodol gyda'r disgyblion, sy'n eu galluogi i ddeall yn glir yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo yn eu tasgau.  Maent yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion werthuso eu gwaith ac maent yn eu hannog i drafod yn synhwyrol y camau nesaf yn eu dysgu.  Yn dilyn adborth llafar adeiladol, rhoddir cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion weithredu ar gyngor y staff i wella eu gwaith.  O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth aeddfed o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella cynnwys a chyflwyniad eu gwaith.  Mae hyn yn dechrau cael effaiith gadarnhaol ar safonau disgyblion.  Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau addysgu effeithiol yn gyson dda.  Er bod hyn yn cael effaith gadarn ar safonau a chynnydd rhan fwyaf y disgyblion, ar adegau, nid yw'r athrawon yn herio digon ar yr holl ddisgyblion i weithio hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y rhai mwyaf galluog.

Mae'r athrawon yn trefnu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol i'r disgyblion, gan gynnwys ymweliadau gwerthfawr gan gwmnïau ac elusennau lleol.  Mae'r ymweliadau addysgol i leoliadau gwahanol yn yr ardal leol yn sbardun buddiol i waith thema.  Er enghraifft, mae'r ymweliad â chastell Harlech i ddysgu am hanes Owain Glyndŵr wedi ysgogi'r disgyblion i ysgrifennu portread aeddfed ohono.

Mae'r oedolion i gyd yn fodelau iaith raenus ac yn annog y disgyblion i ddechrau pob sgwrs yn y Gymraeg.  O ganlyniad, mae gan lawer o'r disgyblion hŷn fedrau trawsieithu effeithiol ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog hyderus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, weithgar a hynod gynhwysol.  Mae'r staff yn creu ymdeimlad cartrefol sy'n cael ei adlewyrchu yn ymddygiad parchus a chwrtais y disgyblion.  Mae pob aelod staff yn hyrwyddo gofal a lles disgyblion yn arbennig o effeithiol.  Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o gefndir ac anghenion disgyblion unigol a defnyddiant y ddealltwriaeth hon yn fuddiol iawn i roi cymorth iddynt.

Mae'r ysgol yn llwyddo i hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, tegwch a chyfle cyfartal yn llwyddiannus iawn.  Mae ymweliadau cyson gan aelodau o'r gymuned er mwyn cynnal gwasanaethau a sesiynau am negeseuon y Beibl yn cyfrannu'n arbennig tuag at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion.

Mae gan yr ysgol strategaethau hynod effeithiol i gefnogi anghenion dysgu emosiynol a chymdeithasol y disgyblion.  Maent yn gwneud hyn wrth gydweithio'n agos iawn â nifer o wasanaethau arbenigol a thrwy fanteisio ar gryfderau staff.  Mae'r strategaethau a'r berthynas agos sy'n bodoli rhwng y staff a'r teuluoedd yn cael effaith hynod gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.  Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael amrywiaeth gwerthfawr o sesiynau ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r holl staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn arbennig o dda ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â nhw. Mae hyn yn eu galluogi i gyfeirio teuluoedd at gefnogaeth arbenigol. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o wybodaeth gyfoethog yn fwriadus i olrhain cynnydd disgyblion, ac i gynllunio a darparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer unigolion a grwpiau penodol. Maent yn darparu cefnogaeth arbennig i sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddo yn eu gwaith ac yn gwneud cynnydd cryf wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r ystod effeithiol o raglenni a strategaethau ymyrraeth a ddefnyddir yn galluogi disgyblion a grwpiau i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r cynlluniau addysg unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd hynod effeithiol i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau drwy waith y cyngorau a'r llysgenhadon amrywiol. Mae hyn yn ehangu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth effeithiol ynghyd â phwysigrwydd bod yn ddinasyddion gweithgar sy'n cyfrannu'n gyson o fewn eu cymuned eu hunain.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith lafar y disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar da. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn llwyddiannus iawn. Maent yn annog disgyblion i ddysgu am hanes a chwedlau lleol i ysgogi eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u hetifeddiaeth. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi ysgrifennu ymson ddiddorol a theimladwy iawn am Tecwyn Jones a'r llanw mawr yn Nhalsarnau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer annog disgyblion i fod yn greadigol ac yn ddychmygus drwy'r celfyddydau yn effeithiol iawn. Enghraifft dda o hyn yw'r dasg a roddwyd iddynt efelychu gwaith Guiseppe Arcimbola i hybu bwyta'n iach. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd niferus a gwerthfawr i ddatblygu eu medrau cerddorol trwy fod yn rhan o ganeuon actol a pherfformio ar lwyfan Canolfan y Mileniwm, er enghraifft. Mae'r disgyblion yn mwynhau perfformio ac maent yn llwyddiannus mewn Eisteddfodau ac ati.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn arwain yr ysgol yn effeithiol iawn ac yn sicrhau bod iddi gyfeiriad strategol clir sy'n darparu cymuned gartrefol a chynhwysol i ddisgyblion. Mae ganddynt weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar arwyddair yr ysgol, sef, "Tyfu, dysgu a chydfyw gyda'n gilydd", ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar gynnig amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion mewn amgylchedd cynhaliol a chefnogol. Mae'r ddau arweinydd yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'r disgyblion, y staff, y llywodraethwyr a'r rhieni i weithredu'r weledigaeth hon. Mae hybu'r Gymraeg a Chymreictod yn flaenoriaeth ac mae'n ganolog i holl waith yr ysgol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol iawn ac yn greiddiol i'w bywyd a'i gwaith. Maent yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol sy'n cynnwys olrhain cynnydd disgyblion ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth drylwyr a chywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w

datblygu. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau hunanwerthuso a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae arweinwyr yn monitro prif flaenoriaethau'r cynllun yn rheolaidd er mwyn mesur llwyddiannau'r gweithgareddau. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes llwyddiannus o sicrhau gwelliant parhaus. Enghraifft nodweddiadol o lwyddiant diweddar yw'r gwelliannau mewn safonau lles disgyblion a'r cymorth a gofal a roddir iddynt.

Mae arweinwyr yn flaengar iawn ac yn annog staff i ystyried deilliannau gwaith ymchwil wrth iddynt gynllunio ac asesu. O ganlyniad, mae'r staff yn cydweithio'n agos iawn fel tîm, gan ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac effeithiol dros ben. Mae'r drefniadaeth hon yn llwyddo i'w datblygu'n arweinwyr hyderus ar bob lefel, sy'n gweithredu gwelliannau i godi safonau addysgol a lles y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae gan y staff ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy, trwy ddod at ei gilydd i drafod safonau a chynllunio ar y cyd yn rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n benodol ar godi safonau a'r cynnydd yn y blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y dulliau addysgu a ddefnyddir ac ar safonau, yn arbennig ar ansawdd ysgrifennu estynedig disgyblion cyfnod allweddol 2.

Caiff yr ysgol gefnogaeth dda iawn gan y llywodraethwyr. Maent hwythau hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn gweithdrefnau hunanwerthuso cynhwysfawr sy'n eu galluogi i adnabod cryfderau'r ysgol a'r rhan fwyaf o feysydd i'w gwella yn effeithiol. Mae eu harfer o fonitro a chasglu tystiolaeth ar ansawdd y ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion yn eu cynorthwyo i ddod i farn glir a chywir ar safonau gwaith a chyrhaeddiad disgyblion. O ganlyniad, mae rôl strategol y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol yn datblygu'n llwyddiannus iawn ac yn eu galluogi i herio'r ysgol am ei pherfformiad yn gydwybodol ac effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad cadarn, sy'n galluogi arweinwyr i ddarparu cyfleoedd hynod effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion dysgu proffesiynol y staff. Mae hyfforddiant ar y cyd â staff ysgolion cyfagos yn ychwanegu'n dda iawn at ansawdd y gweithgareddau dysgu proffesiynol a ddarperir. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw'r hyfforddiant a gawsant i'w galluogi i ddatblygu cynlluniau ymyrraeth ar gyfer diwallu anghenion disgyblion â dyslecsia. Mae ymroddiad yr athrawon i ehangu eu strategaethau cytûn ar gyfer asesu ar gyfer dysgu i'w galluogi i ddarparu adborth mwy effeithiol i ddisgyblion ar eu gwaith, yn enghraifft lwyddiannus arall. Mae'r ymrwymiad cryf i ddatblygu staff yn sicrhau bod yr ysgol yn datblygu'n sefydliad dysgu dylanwadol iawn lle mae staff yn dysgu ac yn datblygu'n broffesiynol gyda'i gilydd yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae gan yr athrawon yr hyder i fynd i'r afael â datblygiadau newydd ym maes addysg yn frwdfrydig. Maent, er enghraifft, yn awyddus i ddysgu mwy am egwyddorion addysgeg effeithiol wrth iddynt ddechrau paratoi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. Mae gwariant wedi ei gysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro'n ofalus gan yr ysgol a'r llywodraethwr, gan sicrhau ei fod yn cael effaith werthfawr ar y ddarpariaeth ac ar safonau disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2020